
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1476 (Cy. 378)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod
Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol)
(Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws)
2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig pa un a'u cynhelir felly ai peidio. Maent yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu yn ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol, ac i ysgolion (ac eithrio ysgolion meithrin) gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 er mwyn caniatáu i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio gan athrawon o ganlyniad i fynychder a throsglwyddiad y coronafeirws yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-2022. Gellir cynnal y sesiynau hyn yn nau ddiwrnod cyntaf ail dymor y flwyddyn ysgol 2021-2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion, Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion, 2 Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1476 (Cy. 378)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod
Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol)
(Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws)
2021**

Gwnaed *21 Rhagfyr 2021*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *22 Rhagfyr 2021*

Yn dod i rym *1 Ionawr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(1), ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2022.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003

2. Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

-
- (1) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Am ystyr "regulations" a "prescribed" gweler adran 579(1).
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
- (3) O.S. 2003/3231 (Cy. 311), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S.

3. Ar ôl rheoliad 6 mewnosoder—

“7.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y flwyddyn ysgol 2021-2022 sydd wedi ei neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i baratoi ysgolion a chynllunio gan athrawon oherwydd amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

(2) Mae paragraff (1) i gael effaith mewn perthynas â dim mwy na phedair sesiwn ysgol yn nau ddiwrnod cyntaf ail dymor y flwyddyn ysgol honno.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae'r sesiwn honno i'w hystyried at ddibenion rheoliad 4 fel sesiwn pan gyfarfu'r ysgol.”

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion

Cymru

21 Rhagfyr 2021